

## Cyfarchion gan y Prif Ymchwilydd

Croeso i 19eg rhifyn o gylchlythyr prosiect CorCenCC. Daeth mis Medi a dechrau'r sesiwn academaidd newydd.



Rydym ni bellach ym

mlwyddyn olaf y prosiect - i ble'r aeth yr amser?! O fewn y 12 mis nesaf caiff y corpws ei lansio a bydd yr holl gynlluniau'n dwyn ffrwyth

o'r diwedd. Beth fyddwch chi'n chwilio amdano gyntaf yn y corpws? Yn y rhifyn hwn o'r cylchlythyr byddwn yn cynnwys newyddion am rai o ddiwyddiadau a chynadleddau'r haf ; datblygiadau diweddaraf yr ap cyfrannu torfol; golwg ar weithio ar y prosiect gan rai o'n myfyrwyr lleoliadau haf ac yn olaf ond nid y lleiaf, byddwn yn eich cyflwyno i aelodau o deulu estynedig CorCenCC.

*Mwynhewch! Y Dr Dawn Knight*

## Cynnwys

T1: Newyddion a digwyddiadau

T3: Myfyrdodau CUROP

T4: Fy PhD CorCenCC

T5: Cwrdd â'r tîm

T6: Cysylltu â ni



## + Newyddion a digwyddiadau Ap nawr ar Android!

Ydych chi'n cofio ein ap torfoli? I ategu'r fersiwn iOS sydd ar gael yn barod, yn ddiweddar rydym wedi bod yn gweithio ar greu mwy o ffyrdd i siaradwyr Cymraeg gynnwys eu data yn y corpws. Gallwch chi bellach gyfrannu data drwy fersiwn gwe ar ei newydd wedd, neu ar blatfformau Android hefyd!

Un o'n nodau ar CorCenCC yw cynnwys data yn y corpws sy'n dod yn uniongyrchol o'r gymuned er mwyn gwneud yn siŵr fod cynrychiolaeth dda o Gymraeg cyfoes yn y 10 miliwn o eiriau. Mae'r ap yn rhoi cyfle i siaradwyr Cymraeg recordio sgysiau gyda'i gilydd a gydag eraill ar draws amrywiaeth o gyd-destunau fel bod modd iddynt gael eu cynnwys yn y corpws terfynol, a lanlwytho metadata sy'n ein helpu ni i gategoreiddio cyfraniadau o'r fath. Mae data torfol yn gyfeiriad gweddol newydd, ac felly rydym yn ei ystyried yn ffordd gyffrous o gasglu Cymraeg cyfoes, yn ogystal â'r ffyrdd mwy traddodiadol o gasglu

data (byddwch chi'n gyfarwydd â nhw os ydych eisoes wedi gweld aelodau tîm CorCenCC o gwmpas y lle).

Wrth gwrs, y cynhwysyn allweddol yn hyn oll yw eich data. P'un ai ydych yn sgwrsio â'ch ffrindiau yn y dafarn neu mewn caffi, gyda'ch teulu wrth y bwrdd bwyd, neu unrhyw beth arall yr hoffech ei rannu, mae eich Cymraeg yn bwysig i ni - ac rydym eisiau gweld cymaint ohoni yn cael ei hadlewyrchu yn CorCenCC â phosibl, ac i fod ar gael i'r gymdeithas weld a dysgu ohoni. Felly ystyriwch gymryd rhan fel cyfrannwr, neu helpwch ni i roi'r gair ar led bod yr ap ar gael. Bydd CorCenCC yn adnodd i bawb, felly beth am wneud yn siŵr ei fod yn adlewyrchu pob agwedd o'n Cymraeg. Mae ein ap torfoli yn un ffordd o wneud hynny.

Os oes gennych chi ddiddordeb mewn cyfrannu trwy'r ap, gallwch gofrestru a chyfrannu ar-lein yn <http://app/corcencc.org> neu lawrlwytho ein fersiynau iOS neu Android i'ch dyfais.

Mae croeso i chi anfon ebost atc gydag unrhyw gwestiynau sy'n ymwneud â'r ap: [tech@corcencc.org](mailto:tech@corcencc.org).



## Digwyddiadau diweddar: Eisteddfod Genedlaethol Cymru, 3-11 Awst 2018

Mae Eisteddfod Genedlaethol eleni wedi'i disgrifio yn y cyfryngau fel 'arbrofol', gan iddi gael ei lleoli yng nghanol Bae Caerdydd yn hytrach na mewn cae mwdlyd. Siaradon ni â nifer fawr o bobl yn ystod yr wythnos a oedd yn meddwl bod yr arbrawf yn llwyddiant: roedd y diffyg ffiniau yn golygu bod unrhyw un yn gallu taro ar yr Eisteddfod felly roedd yr ŵyl yn teimlo'n agored i bawb, nid yn unig yr Eisteddfodwyr arferol. O safbwynt tîm CorCenCC hefyd, roedd hi'n wych bod cymaint o bobl o gwmpas – a bod cymaint ohonoch chi'n fodlon cyfrannu sgwrs at y corpws, dros ginio, coffi, peint neu jin! Diolch yn fawr iawn iawn i chi i gyd!

Cawson ni lwyddiant hefyd yn recordio ar nifer o stondinau yn yr Eisteddfod. Mae iaith cwsmer-staff yn gallu bod yn anodd i ni ei chasglu weithiau, achos allwn ni ddim rhagweld a fydd cwsmeriaid Cymraeg yn ymweld â siop ar y diwrnod rydyn ni yno i recordio. Ond yn yr Eisteddfod wrth gwrs, roedd cwsmeriaid ym mhobman, a bron pob un yn siaradwr/dysgwr Cymraeg. (Cofiwch y bydd y corpws yn cynnwys iaith dysgwyr a siaradwyr eraill sy'n llai hyderus gyda'u Cymraeg – does dim disgwyl i gyfranwyr siarad yn berffaith. **Rhowch eich Cymraeg i ni!**)

Gofynnwn ni i Sioned Johnson-Dowdeswell, myfyrwraig SPIN o Brifysgol Abertawe am ei meddyliau a'i phrofiadau o weithio yn yr Eisteddfod gyda thîm CorCenCC: 'Roedd gweithio gyda thîm CorCenCC yn yr Eisteddfod Genedlaethol eleni yn brofiad gwerthfawr a buddiol iawn i mi. Ffeindiais y dasg o esbonio'r gwaith i aelodau'r cyhoedd yn un heriol ar adegau, achos mae'r prosiect yn eitha cymhleth i ddeall ar yr olwg gyntaf. Ond gydag ymarfer a phrofiad, daeth yn haws i ennill sylw a diddordeb y cyhoedd. Cwrddais â nifer fawr o bobl ddiddorol ar faes yr Eisteddfod, ac roedd eu brwdfrydedd am y prosiect a'r iaith Gymraeg yn galonogol. Dydw i ddim yn berson naturiol hyderus, felly roedd cyfathrebu gyda phobl hollol ddieithr yn dipyn o gamp i mi! Teimlaf fy mod wedi elwa'n bersonol wrth wneud y gwaith yma gan fy mod wedi ennill hyder yn ogystal â chasglu data perthnasol a defnyddiol'.



## Digwyddiadau diweddar: Cynhadledd flynyddol BAAL @ York St John

Teithiodd aelodau o Dîm Rheoli CorCenCC, Dawn Knight, Tess Fitzpatrick a Steve Morris i York St John i Gynhadledd Cymdeithas Ieithyddiaeth Gymhwysol Prydain (BAAL) (6 - 8 Medi). Cymdeithas broffesiynol yw BAAL gydag ychydig dan 1000 o aelodau rhyngwladol, sy'n cynnig fforwm i bobl sydd â diddordeb mewn iaith ac ieithyddiaeth gymhwysol. Cyflwynodd y tîm ddau bapur yn seiliedig ar waith CorCenCC. Gan ymateb i thema'r gynhadledd, 'Mentro gyda Risgiau mewn Ieithyddiaeth Gymhwysol' roedd y papur cyntaf yn adlewyrchiad gonest o rai o'r heriau a'r manteision sy'n gysylltiedig â chynllunio, sicrhau, rheoli a lledaenu prosiect ymchwil ar raddfa fawr. Roedd y cyflwyniad yn cynnig peth arweiniad ymarferol ac awgrymiadau yn codi o'r gwersi rydym ni wedi'u dysgu i eraill sy'n ceisio neu'n eu hannog i

# Cylchlythyr CorCenCC

Rhifyn 19, Medi 2018

arwain a/neu gyfrannu at brosiectau ymchwil ar raddfa fawr. Roedd yr ail yn gyfle i gyfranogwyr weld rhai o offerynnau digidol CorCenCC ar waith. Roedd hyn yn cynnwys arddangos y tagwyr semantig a POS; fersiwn peilot o'r pecyn cymorth addysgeg a rhai enghreifftiau o offerynnau ymholi sylfaenol y corpws ar waith. Cafwyd cynulleidfa dda i'r ddau gyflwyniad ynghyd ag adborth gwych, a chwestiynau diddorol gan y bobl oedd yn bresennol yn y sgwrsiau. Fel aelodau o Bwyllgor Gwaith BAAL, mae'r gynhadledd bob amser yn amser prysur i Dîm Rheoli'r Corpws, ond mae wastad yn gynhadledd sy'n ysgogi'n ddeallusol ac yn werth chweil. Roedd cinio'r gynhadledd a'r adloniant yn wych, a chawsom gyfle



hyd yn oed i gael cipolwg ar uchafbwyntiau diwylliannol a hanesyddol dinas brydferth Caerefrog. Cyfarfu Steve a Dawn â dawnswyr Morris hyd yn oed (roedd Steve wrth ei fodd!). Bydd gynhadledd nesaf BAAL yn cyd-fynd â diwedd y prosiect, felly byddwn ni'n ôl yna, ym Mhrifysgol Fetropolitan Manceinion, i ychwanegu'r cyffyrddiadau terfynol ac edrych yn ôl ar hynt y prosiect cyfan.



## Myfyrdodau CUROP gan Alys Greene, Prifysgol Caerdydd

Dyna 'ny, dwi wedi cyrraedd diwedd fy 8 wythnos ar leoliad gwaith yn gweithio ar brosiect CorCenCC, ac mae'r amser wedi hedfan! Rwyf wedi gallu gwneud cymaint yn fwy nag yr oeddwn yn gallu dychmygu, ac mae'r gwaith wedi bod yn gwbl fuddiannol. O'r wythnosau cyntaf yn cyfarwyddo fy hun â byd ieithyddiaeth corpws a deall pam fod creu corpws yn bwysig, i werthfawrogi sut fyddai fy nghyfraniad ar WP3 yn gwneud gwahaniaeth a paham fod angen y tagiwr semanteg a sut y mae'n gweithio'n ymarferol, mae'r profiad wedi bod yn werthfawr.

Roedd fy ngwaith i'n ffocysu ar dagio semanteg y data, lle rhoddwyd tagiau semanteg i'r data gan y tagiwr a oedd yn esbonio'r cyd-destun yr oedd yn cael ei ddefnyddio ynddi, ac yna roeddwn yn gwirio bod y tagiau cywir wedi eu cymhwysu i'r data. Es ati'n fuan i weithio ar y tagio, gan ddefnyddio'r Set o Dagiau Semantig Cymraeg USAS i dagio'r data a gwneud y cywiriadau lle bod angen er mwyn rhoi'r ystyr cywir i'r geiriau. Buodd rhai ffeiliau'n fwy heriol nag eraill, ond y mwy cyfarwydd yr oeddwn yn dod gyda'r tagiau, y mwy haws fyddai'r tagio.

Roeddwn i yna'n ddigon lwcus i gael brêc o'r swyddfa ac i gael profiad o ymagwedd arall o'r prosiect; casglu data allan ar faes yr Eisteddfod. Roedd yn wahanol iawn i'r hyn yr oeddwn yn gyfarwydd â yn y swyddfa, ond roedd yn gyfle da i fynd allan i siarad â phobol am y prosiect a llwyddom i gael data llafar cymdeithasol a busnes.

Yna, roedd hi'n amser i fynd yn ôl i'r swyddfa i orffen y gwaith tagio yr oedd gennyf ar ôl i wneud. Rwyf nawr wedi gorffen y tasgau hynny, ac wedi mwynhau fy amser ar y prosiect, yn edrych ymlaen at weld beth sydd i ddod iddo. Mae bod yn rhan o'r tîm CorCenCC wedi bod yn brofiad gwych, rwyf wedi gallu gweithio'n annibynnol ar fy nhasgau fy hun a hefyd gyda grŵp da o gyd-weithwyr ar agweddau eraill o'r prosiect, ac y mae wedi rhoi'r cyfle imi weithio trwy gyfrwng y Gymraeg, rhywbeth yr wyf yn gobeithio gwneud ar ôl imi orffen gyda fy astudiaethau. O ran y dyfodol, rwyf yn gobeithio parhau i fod yn rhan o'r prosiect mewn unrhyw ffordd y gallaf, boed hynny trwy gyfrannu data neu drawsgrifio.

## Fy PhD CorCenCC - gan Bethan Tovey, Prifysgol Abertawe

*Dechreuodd Bethan Tovey ei PhD sy'n gysylltiedig â'r CorCenCC yn ddiweddar ym Mhrifysgol Abertawe.*

*Gofynnwn ni i Bethan rannu manylion am yr hyn mae'n bwriadu ei astudio ar gyfer ei PhD; pwysigrwydd y gwaith hwn a sut mae'n 'ychwanegu' at nodau cyffredinol prosiect CorCenCC:*

Er nad yw'n hawdd dod o hyd i ffigyrau dibynadwy, ymddengys yn debygol mai amlieithog ydy'r rhan fwyaf o bobl y byd. Ym Mhrydain, fodd bynnag, mae gennym draddodiad o unieithrwydd ymosodol sy'n amlygu ei hun mewn siofinistiaeth ieithyddol a anelir ar hap at unrhyw un nad yw'n siarad Saesneg digon "brodorol". Ei thargedau eraill, wrth gwrs, ydy ieithoedd cyn-Seisnig Prydain, fel y Gymraeg.

Fel siaradwyr Cymraeg, rydym ond yn rhy gyfarwydd â'r un hen gellweiriau a adroddir dydd ar ôl dydd ar y cyfryngau cymdeithasol, ac yn ddigon aml yn y wasg genedlaethol, hefyd. Un ffurf gyffredin ydy gwatwar defnydd geiriau Saesneg o fewn brawddegau yn y Gymraeg. "50% of the welsh language is taking English words and changing the vowels to 'i's an [sic] 'w's", chwedl un o drigolion Twitter.



Rydym ni'n hunain yn dueddol o gwyno am yr un peth. Yn ôl Trydarwr arall - Cymro Cymraeg y tro yma - "It annoys me when people use "Welsh-English" when we have perfectly good words in y Gymraeg e.e. trowsus vs llodrau, miwsig vs cerddoriaeth, jam vs cyffaith... I know language is a living thing but we have such a beautiful one that it doesn't need to be bastardised".

Ffenomen a nifer o enwau arni ydy'r aryneilio yma rhwng dwy iaith, "newid cod" neu "cymysgu cod" yn eu plith. Awgryma ymchwil ar draws nifer o gymunedau amlieithog fod cymysgu cod yn nodwedd ieithyddol arferol ymhlith pobl sydd a fwy nag un iaith yn gyffredin. Gall gyflawni nifer o strategaethau pwysig, megis creu agosrwydd neu bellter rhyngbersonol, neu bwysleisio gwybodaeth allweddol.

Ym meddwl rhai, serch hynny, mae cymysgu cod yn teimlo fel methiant, yn enwedig pan ydynt yn newid o iaith leiafrifol neu iaith etifeddol at iaith drechol fel Saesneg. Fel dywed trydydd Trydarwr, "You're worried that your grammar's poor, that you drop too many English in, and you don't 'sound like a Welsh speaker."

Fe fydd fy ymchwil PhD yn ystyried cymysgu cod rhwng Cymraeg a Saesneg yn ei gyd-destun cymdeithasol. Byddaf yn edrych ar sut mae agweddau personol tuag at y ffenomen yn effeithio ar ymddygiad ieithyddol unigolion. Yn wahanol i lawer o'r ymchwil sydd ar gael, rwy'n bwriadu astudio cymysgu yn y ddau gyfeiriad, drwy recordio data wrth bobl ddwyieithog yn siarad Cymraeg ac yn siarad Saesneg, er mwyn ystyried a oes anghymesurolddeb rhwng y ffurfiau sydd ar gymysgu cod yn y ddau gyd-destun.

Mi fydd cymysgu cod yn naturiol yn nodwedd o ddata CorCenCC. Am fod pawb bron sy'n siarad Cymraeg hefyd yn siarad Saesneg, gwyddwn pan siaradwn â'n gilydd na fydd camddealltwriaeth yn deillio o gymysgu Saesneg a Chymraeg. Dichon nad felly y mae i'r rhan fwyaf o barau o ieithoedd. Nid oes modd i berson sy'n siarad Saesneg ac Almaeneg, er enghraifft, wybod os fydd cymysgu côd rhwng y ddwy iaith yn briodol neu'n ddealladwy pan ydynt yn siarad â dieithryn. O ganlyniad i statws y Gymraeg fel iaith ddwyieithog, fel petai, mae iaith lafar ac ysgrifenedig siaradwyr Cymraeg, a'n cysylltiadau electronig, yn tueddu i gynnwys amrediad o fathau o gymysgu cod, o fenthyciad geiriau unigol i newid rhwng brawddegau ac unedau mwy.

Ymhlith pethau eraill, mae i hynny oblygiadau ym maes addysg cyfrwng Cymraeg. Er enghraifft, os medrwn

ddarganfod fod yna bynciau trafod sy'n tueddu i sbarduno cymysgu cod arbennig o aml, efallai hoffwn gynghori arholwyr i osgoi'r fath bynciau, gan eu bod yn annhebygol o ennyn Cymraeg traddodiadol o "dda" gan ddisgyblion. Mae addysgwyr cyfrwng Saesneg yn dechrau deall pwysigrwydd ystyried tafodieithoedd eu disgyblion, a'u helpu i feistrolu Saesneg Safonol fel arf broffesiynol, yn hytrach na mynnu eu bod yn amnewid eu tafodieithoedd am y ffurf safonol. Dichon y byddai'r fath ymdriniaeth o fudd i addysg cyfrwng Cymraeg, gan gydnabod fod cymysgu cod yn nodwedd gref o brif (neu unig) dafodiaith rhai disgyblion, a bod arnynt angen cefnogaeth benodol i gaffael hefyd arddull academaidd traddodiadol sy'n osgoi cymysgu cod.




Fodd bynnag, nid annog pobl i osgoi cymysgu cod yw diben fy ymchwil. Yn hytrach, un o'i dibenion ydy codi ymwybyddiaeth am ba mor naturiol yw cymysgu cod ymhlith pobl ddwyieithog, ac i ddefnyddio'r ymwybyddiaeth honno i lunio amcanion cwricwlaidd ac addysgol addas i blant ysgol ac i ddysgwyr hŷn. Rydw i hefyd yn gobeithio gallu calonogi'r rheiny sy'n teimlo nad yw eu Cymraeg yn "ddigon da" am eu bod nhw'n cymysgu cod. Yn olaf, rwy'n gobeithio datblygu ein dealltwriaeth ynglŷn â sut mae Cymraeg yn effeithio ar y Saesneg a siaredir gan bobl ddwyieithog, er mwyn rhoi hwb i fodel o ddwyieithrwydd sy'n cynnwys y ddwy iaith fel partneriaid cyfartal yn hytrach na'u gweld fel difwyniad un iaith gan y llall.

## + Cwrdd â'r tîm: Yr Athro Michael McCarthy, ymgynghorydd prosiect CorCenCC

Fe'm ganwyd yng Nghaerdydd a dysgais Gymraeg yn yr ysgol yn y ffordd oedd yn cael ei dysgu yn y dyddiau hynny (diwedd y 1950au, dechrau'r 1960au), hynny yw, yn debycach i'r ffordd roedden ni'n dysgu Lladin na'r ffordd roedden ni'n dysgu Ffrangeg neu Sbaeneg. Dysgon ni restrau o eiriau, dysgon ni'r tablau treiglo ar ein cof (gallaf adrodd y rhan fwyaf ohonyn nhw hyd heddiw!), cyfieithon ni frawddegau a thestunau byr a dysgu sut i redeg berfau. Wedi dweud hynny, nid dysgu diflas di-fflach ar y cof oedd y cyfan; hefyd fe ddysgon ni gerddi prydferth gyda chyfle i'w hadrodd a chystadlu yn Eisteddfodau'r ysgol. Roedd y gweithgaredd hwn yn dod yn hawdd i fi, a byddwn yn aml yn sgorio'n uchel. Ac ar un achlysur, cefais gyfle gwych a bythgofiadwy i ganu'n Gymraeg yn y côr ieuencid yn yr Eisteddfod Genedlaethol pan gafodd ei chynnal yng Nghaerdydd. Yr unig broblem oedd na chawsom ni fyth ddysgu siarad yr iaith na sgwrsio ynddi, felly roedd yn bwnc haniaethol braidd, oedd yn diflasu llawer o ddisgyblion, ond nid fi.

Am nifer o resymau, yn y pen draw astudiais i Sbaeneg yn y brifysgol ac aeth fy nheithiau fel athro Saesneg â fi i Sbaen am naw mis ac i Sweden am bum mlynedd, felly Swedeg a Sbaeneg oedd drechaf a chafodd y Gymraeg ei throï allan fel petai, o storfa fy meddwl. Yn gryno, aeth mor rhydlyd fel y bu bron iddi ddiflannu am byth.

Mae CorCenCC wedi bod yn sbardun gwych i fi adnewyddu fy ngwybodaeth o'r Gymraeg ac rwy'n cadw addunedu mynd ar gwrs gloywi, ond bod pwysau a chyfrifoldebau eraill fel pe baent yn fy rhwystro drwy'r amser. Gallaf ddeall llawer o'r trafodaethau Cymraeg yng nghyfarfodydd CorCenCC ond ni allaf gyfrannu yn Gymraeg, gwaetha'r modd. Ond fel ieithydd corpws, rwy'n gwybod pa mor bwysig yw'r prosiect a byddaf yn ei wasanaethu sut bynnag y gallaf, er mai drwy gyfrwng y Saesneg fydd hynny.



## + Cysylltu â ni

Mae'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau'r prosiect hefyd ar gael drwy Facebook:

[www.facebook.com/CorCenCC/](http://www.facebook.com/CorCenCC/); Twitter <https://twitter.com/corcencc> (gallwch ein trydar @CorCenCC). Gallwch hefyd

gysylltu â ni drwy anfon neges i gyfeiriad ebost y prosiect: [corcencc@caerdydd.ac.uk](mailto:corcencc@caerdydd.ac.uk) neu ewch i'n gwefan, sef:

[www.corcencc.cymru](http://www.corcencc.cymru)



Arts & Humanities  
Research Council

Mae CorCenCC yn brosiect ymchwil a ariennir gan ESRC/AHRC (Grant Rhif ES/M011348/1). Mae tîm CorCenCC yn cynnwys y Prif Ymchwilydd - Dawn Knight; y Cyd-Ymchwilywyr - Tess Fitzpatrick, Steve Morris, Irena Spasić, Paul Rayson, Enlli Thomas, Alex Lovell a Jonathan Morris; y Cynorthwywyr Ymchwil - Steven Neale, Jennifer Needs, Mair Rees, Scott Piao a Lowri Williams; y myfyrwyr PhD - Vigneshwaran Muralidaran a Bethan Tovey; Ymgynghorwyr - Kevin Donnelly, Kevin Scannell, Laurence Anthony, Tom Cobb, Michael McCarthy a Margaret Deuchar; Grŵp Ymgynghorol y Prosiect - Colin Williams, Karen Corrigan, Llion Jones, Maggie Tallerman, Mair Parry-Jones, Gwen Awbery, Emyr Davies (CBAC-WJEC), Gareth Morlais (Llywodraeth Cymru), Owain Roberts (Llyfrgell Genedlaethol Cymru), Aran Jones (Saysomethingin.com) ac Andrew Hawke (Geiriadur Prifysgol Cymru). Os oes gennych unrhyw sylwadau neu gwestiynau am gynnwys y cylchlythyr hwn, cysylltwch â Dr Dawn Knight: [KnightD5@caerdydd.ac.uk](mailto:KnightD5@caerdydd.ac.uk)